# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd

**Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol**
**Ionawr 2014**

## Adroddiad Blynyddol

Yng nghyfarfod rhif 35 y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd, a gynhaliwyd yn Nhŷ Hywel ddydd Mercher 4 Rhagfyr 2013, cynhaliodd y grŵp ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf o dan reolau newydd y Cynulliad Cenedlaethol ar weithrediad Grwpiau Trawsbleidiol.

## Aelodau ac Ysgrifenyddiaeth

O fis Rhagfyr 2013, mae'r aelodau a'r ysgrifenyddiaeth fel a ganlyn:

Aelodau
- Nick Ramsay AC (Cadeirydd)
- Julie James AC
- Llyr Gruffydd AC
- William Powell AC

Ysgrifennydd
- Glandŵr Cymru - yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru (Matt Francis ar hyn o bryd)

## Cyfarfodydd yn ystod y 12 mis diwethaf

Yn ystod 2013 cynhaliodd y grŵp gyfanswm o dri chyfarfod.

| Dyddiad y cyfarfod: | Aelodau'r Cynulliad a oedd yn bresennol | Y pynciau a drafodwyd | Siaradwyr allanol |
|---|---|---|---|
| 24/4/2013 | Russell George AC<br>Mark Isherwood AC<br>Mike Hedges AC<br>William Graham AC<br>Aled Roberts AC | Dyfrffyrdd a thwristiaeth yng Nghymru | Dan Clayton-Jones (Cadeirydd, Panel y Sector Twristiaeth)<br><br>Julie Lewis, Hazel Bowen (Cyngor Sir Powys) |
| 9/10/2013 | Nick Ramsay AC<br>Mohammad Asghar AC<br>Russell George AC<br>Byron Davies AC<br>William Graham AC<br>Mark Isherwood AC | Dyfrffyrdd ac ecosystemau | James Byrne, (Ymddiriedolaethau Natur Cymru)<br><br>Cyflwyniad gan Cat Griffiths Williams (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig) |
| 4/12/2013 | Nick Ramsay AC<br>Julie James AC<br>Russell George AC<br>Antoinette Sandbach AC | 'Beyond the Towpath': Prosbectws deng mlynedd Glandŵr Cymru | Andrew Stumpf a Dr Mark Lang (Glandŵr Cymru) |

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn cynnal cyfarfodydd agored; darperir rhestr lawn o bawb sy'n bresennol ym mhob cyfarfod fel rhan o'r cofnodion, sydd ar gael ar y dudalen berthnasol ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ystod 2013, darparwyd gwasanaethau ysgrifenyddol i'r Grŵp gan gynrychiolwyr o gwmni materion cyhoeddus Grayling, ar ran Glandŵr Cymru.

**Datganiad Ariannol**

Yn ystod 2013, darparwyd lluniaeth (te, coffi, dŵr a chacennau cri) gwerth cyfanswm o £205.20 gan Glandŵr Cymru ar gyfer y tri chyfarfod.